14th September 2017
The ninth meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group
Felindre Welfare Hall

Attendees
Emma North, Planning, City and County of Swansea
Councillor Paul Northcote, Mawr Community Council
Cllr Kevin Griffiths, Pontarddulais Community Council
Cllr Wyn Morgan, Penllergaer Community Council
David Owen, Planning, City and County of Swansea
Alun Thomas, Highways, City and County of Swansea
Neil Chambers, Contracts Manager, Dawnus Construction Ltd
Tom Morris, Dawnus Construction Ltd
Philip McDonnell, Chair
Tim James, Construction Project Manager, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. **Welcome and introductions**
The chair welcomed the group.

2. **Apologies**
Brigitte Rowlands WGCA; Sgt Philip Morris and Matthew Collins South Wales Police; Cllr Robert Jones, Mawr; Jenny Cowley, innogy.

3. **Minutes of previous meeting and matters arising**
3.1 The chair asked group members to check the minutes for accuracy.
3.2 Kathryn Harries had been consulted about her future attendance (action 3.5) and is able to attend a meeting on 24th October to provide an update on the Community Benefit Fund.
3.3 The chair asked for an update on sheep losses. TJ reassured the meeting that the matter was being dealt with at the Management Group meeting held monthly with Commoners.
3.4 The chair asked TJ to confirm that Mynydd y Betws Wind Farm was not operational due to ongoing maintenance work being carried out by WPD (action 6.3). TJ confirmed that this is indeed the case, and the work is part of a planned asset renewal programme.
3.5 As there had been no major project milestones since the last CLG meeting, JC had had no need to notify CLG members of anything by e-mail (action 6.9).
3.6 Craig Cefn Park had been misspelled in item 6.11 and the minutes need to be corrected. In terms of the hardship fund requested by the community, TJ said that this was unlikely outside of the parameters of the Community Benefit Fund, but that members of the CLG would have the opportunity to raise this directly with Kathryn Harries at the next meeting.
3.7 There being no further amendments, the minutes were agreed as a true record of the previous meeting.

4. **Update from Tim James**
4.1 The main site entrance at Bolgoed Road is now down to its planned level and no further excavation works are planned. Drainage is being installed either side of the road from the entrance uphill, the first 200m is complete. The remaining drainage works involving the rock pecker will be completed by the end of next week
4.2 It is hoped that the work at the site entrance will soon be completed, and the noise associated with rock breaking will cease.
4.3 Dawnus have progressed well with laying the final capping layer and are half way through this work.

4.4 The main focus has been the S278 work on the highway between A1K9 to the junction with Heol Glyn Dyfal. Work is well underway and the widening is complete.
4.5 The road between Five Ways and Cwmdulais is being repaired (potholes) and cleaned.
4.6 From Five Ways to the gas main, the road is being fully reconstructed and the level will need to be reduced in order to properly resurface. Drivers can use the newly restored main road whilst this work is being carried out.
4.7 Dawnus have notified residents of this work.
4.8 The base course on Heol y Barna from Heol Glyn Dyfal to the junction of the 'mine road' (Housty Kennels) is being laid next week.
4.9 The base course at the project entrance will be laid in the last week of September. The first 300 metres of this section will be surfaced up to the boundary with the common.
4.10 The section from Heol y Barna to A1K9 is being surfaced at the beginning of week commencing 25/09/17, and the cattle grid being installed once the base course has been laid.
4.11 One farmer (on Cwmcerdinen Road) has concerns about being able to turn from Heol y Barna onto Heol Glyn Dyfal (towards Felindre) following the construction work being carried out. TJ assured members that the matter had been raised with him at the Management Group meeting and that he and AT of the highways department at Swansea Council have agreed a satisfactory solution. The section can be widened to accommodate farm vehicles, but this will not be surfaced.
4.12 At the junction between Heol y Barna and Heol Glyn Dyfal a new left turn has been constructed to allow the abnormal loads to turn. Once the wind farm construction is complete this area will be top-soiled and reinstated. In the event that a further abnormal load is required during the operational life of the wind farm this area will be scraped off to allow delivery.
4.13 During the works at the site entrance innogy have been undertaking vibration monitoring in accordance with the planning obligations, via an independent third party. Dawnus have also undertaken vibration checks of specific activities. The monitoring has demonstrated that the levels of vibration are not significant.
4.14 A bund was erected from sub-soils to act as an acoustic barrier during the site entrance works. This will be removed on completion of these works.

5. Jenny Cowley's update (provided on JC's behalf by TJ)

5.1 Tonia Antoniazzi the MP for Gower attended a site visit at the end of August. She issued a positive press release and messages on social media.
5.2 The positive press coverage of the MP's visit in the local paper prompted a Bolgoed Road resident to write again to innogy to raise issues relating to noise, dust, vibration, and traffic disruption. The resident had raised these issues with innogy on a number of previous occasions and Innogy have dealt with issues and provided feedback on a number of occasions.
5.3 Separately, a local resident had recorded the noise made by the road-pecker and sent the recording to innogy. There was an accusation that innogy contractors were starting work prior to the 7.30 am start time stipulated in the planning consent. Innogy has investigated and has found no evidence of the start time being breached. Innogy's full time ecologist and clerk of works are both on site between 7 and 7.30 am and both have confirmed that the road-pecking does not begin until 9 am.
5.4 A resident of Cwmdulais had expressed concerns regarding gravel and mud on the section of road from Heol y Barna to A1K9. Dawnus have dressed the surface of this section and this will be surfaced as outlined in 4.10.
5.5 Difficulties with other commitments of one of the sub-contractors has meant that road re-surfacing has been delayed. This has prompted a complaint from a resident of Cwmdulais. The sub-contractor in question is now on-site and it's anticipated that this work will begin soon. (AP: Tom Morris of Dawnus will contact the complainant to advise them of this.)

5.6 There have been a small number of complaints about traffic congestion near Heol y Barna. In the vast majority of cases construction vehicles are making way for Local Access traffic with the minimal of delay.

5.7 A complaint was received about road sweeping of the Bryn Bach road, it was noted that the same roadsweeper is also contracted on the dam project near to the Mynydd y Gwair Wind Farm project and so will be cleaning Bryn Bach road as part of those works. There was a further complaint regarding the road sweeper operating late in the evening. TJ highlighted that the sweeper was ensuring that the road was cleaned after works were complete for the day. (AP: Tom Morris of Dawnus to contact the sub-contractor regarding the driver's attitude when challenged by a local resident).

5.8 As an aside, Dawnus explained that work on the dam project was far from complete.

5.9 innogy has appointed Swansea Council for Voluntary Action (SCVS) as the independent administrator to manage the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Benefit Fund (CBF). CLG members have a number of questions regarding the administration of the fund and these can be put to Kathryn Harries at the next meeting. KH has also indicated that Amanda Carr, CEO of the SCVS, will also attend the next meeting.

5.10 CLG members were pleased to hear this news and reiterated their concerns about which local community councils were eligible to apply to the local fund, the competition for funding, and what support would be available to them to help them to write and submit bids.

5.11 The Chair reminded CLG members that the SCVS had a track record in working with small communities and supporting small projects. He felt that the fact that Amanda Carr had indicated that she could attend the next meeting was a positive sign.

5.12 TJ reiterated that he was not involved in the CBF element of the project.

6. **AOB**

6.1 Turbine and tower deliveries on AILs are not due until August of 2018.

6.2 Cllr Kevin Griffiths has been asked whether cyclists could use the 300 metres of newly tarmacked track from the Bolgoed Road site entrance, when the work is complete. Cyclists should be advised that they cannot use this track as it is private property.

6.3 In addition, cyclists were inquiring whether any recycled material from the construction would be suitable to use on cycling tracks being laid nearby. (AP: Dawnus will consider whether there is any spare material and advise on whether it is suitable for re-use).

6.4 TJ is due to write a new blog update very soon.

6.5 The construction work is currently in line with the timescales outlined in the project programme.

7. **Next meeting:**

The next meeting will be held at 6 pm on Thursday 24th September, at the Old Boiler House, Penllergaer (subject to availability).

The meeting concluded at 6.50 pm.

14eg Medi 2017
Nawfed cyfarfod o Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair Neuadd Les Felindre

Yn bresennol
Emma North, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Cynghorydd Paul Northcote, Cyngor Cymuned Mawr
Cyngh Kevin Griffiths, Cyngor Cymuned Pontarddulais
Cyngh Wyn Morgan, Cyngor Cymuned Penllergaer
David Owen, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Alun Thomas, Priffyrdd, Dinas a Sir Abertawe
Neil Chambers, Rheolwr Contractau, Dawnus Construction Ltd
Tom Morris, Dawnus Construction Ltd
Philip McDonnell, Cadeirydd
Tim James, Rheolwr Prosiectau Adeiladu, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. **Croeso a chyflwyniadau**
Croesawodd y Cadeirydd y grŵp.

2. **Ymddiheuriadau**
Brigitte Rowlands WGCA; Sarsiant Philip Morris a Matthew Collins Heddlu De Cymru; Cyngh Robert Jones, Mawr; Jenny Cowley, innogy.

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi**
3.1 Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r grŵp edrych a oedd y cofnodion yn gywir.
3.2 Roedd Kathryn Harries wedi holi ynglŷn â'i phresenoldeb i'r dyfodol (Gweithredu 3.5) ac mae'n gallu mynychu cyfarfod ar 24ain Hydref i roi diweddariad ar y Gronfa Budd Cymunedol.
3.3 Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar golli defaid. Sicrhaodd TJ y cyfarfod fod y mater yn cael sylw yng nghyfarfod y Grŵp Rheoli a gynhelir yn fisol gyda'r Cominwyr.
3.4 Gofynnodd y Cadeirydd i TJ gadarnhau nad oedd Fferm Wynt Mynydd y Betws yn weithredol oherwydd gwaith cynnal a chadw parhaus sy'n cael ei wneud gan WPD (Gweithredu 6.3). Cadarnhaodd TJ fod hyn yn wir, a bod y gwaith yn rhan o raglen adnewyddu asedau wedi'i gynllunio.
3.5 Gan na fu dim cerrig milltir pwysig yn y prosiect ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Cyswllt Cymunedol (CLG), nid oedd JC wedi gorfod hysbysu aelodau'r CLG o ddim drwy e-bost (Gweithredu 6.9).
3.6 Roedd Parc Craig Cefn wedi cael ei gamsillafu yn eitem 6.11 ac mae angen cywiro'r cofnodion. O ran y gronfa caledi y gofynnodd y gymuned amdani, dywedodd TJ fod hyn yn annhebygol y tu allan i baramedrau'r Gronfa Budd Cymunedol, ond y byddai aelodau'r CLG yn cael cyfle i godi hyn yn uniongyrchol gyda Kathryn Harries yn y cyfarfod nesaf.
3.7 Gan nad oedd dim newidiadau pellach, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.

4. **Diweddariad gan Tim James**
4.1 Mae prif fynedfa'r safle yn Ffordd Bolgoed yn awr i lawr i'r lefel a fwriadwyd ac nid oes dim gwaith cloddio pellach wedi'i drefnu. Mae draeniau'n cael eu rhoi o boptu'r ffordd, o'r fynedfa ar i fyny, mae'r 200m cyntaf wedi'i gwblhau. Bydd y gwaith draenio sy'n weddill, sy'n golygu defnyddio'r peiriant cnocellu, yn cael ei gwblhau erbyn diwedd wythnos nesaf.
4.2 Bydd y gwaith ar fynedfa'r safle wedi'i gwblhau'n fuan gyda lwc, a bydd y sŵn sy'n deillio o'r gwaith torri creigiau yn dod i ben.
4.3 Mae Dawnus wedi bwrw ymlaen yn dda gyda'r gwaith o osod yr haen capio olaf ac maent hanner ffordd drwy'r gwaith.

4.4 Y prif ffocws fu'r gwaith S278 ar y briffordd rhwng A1K9 i'r gyffordd â Heol Glyn Dyfal. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n hwylus ac mae'r gwaith lledu wedi'i gwblhau.

4.5 Mae'r ffordd rhwng Five Ways a Chwmdulais yn cael ei thrwsio (tyllau ffordd) a'i glanhau.

4.6 O Five Ways i'r brif bibell nwy, mae'r ffordd yn cael ei hail-adeiladu'n llwyr a bydd angen gostwng y lefel er mwyn ei hailwynebu'n iawn. Gall gyrwyr ddefnyddio'r briff ffordd sydd newydd ei hadfer tra bo'r gwaith hwn yn cael ei wneud.

4.7 Mae Dawnus wedi hysbysu'r trigolion o'r gwaith hwn.

4.8 Mae'r cwrs isaf ar Heol y Barna o Heol Glyn Dyfal i gyffordd 'ffordd y pwll glo' (Housty Kennels) yn cael ei osod yr wythnos nesaf.

4.9 Bydd y cwrs isaf ym mynedfa'r prosiect yn cael ei osod yn ystod wythnos olaf Medi. Bydd 300 metr cyntaf y darn hwn yn cael ei wynebu i fyny hyd at y terfyn gyda'r comin.

4.10 Mae'r darn o Heol y Barna i A1K9 yn cael ei wynebu ar ddechrau'r wythnos yn dechrau 25/09/17, a chaiff y grid gwartheg ei osod ar ôl i'r cwrs isaf gael ei osod.

4.11 Mae un ffermwr (ar Ffordd Cwmcerdinen) yn pryderu a fydd yn gallu troi oddi ar Heol y Barna i Heol Glyn Dyfal (i gyfeiriad Felindre) ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei wneud.
Sicrhaodd TJ yr aelodau fod y mater wedi cael ei drafod gydag ef yng nghyfarfod y Grŵp Rheoli a'i fod ef ac AT o'r adran briffyrdd yng Nghyngor Abertawe wedi cytuno ar ateb boddhaol. Gellir lledu'r darn hwn i wneud lle i gerbydau fferm, ond ni chaiff hwn ei wynebu.

4.12 Yn y gyffordd rhwng Heol y Barna a Heol Glyn Dyfal mae troad newydd i'r chwith wedi cael ei wneud i ganiatáu i lwythi anarferol droi. Ar ôl gorffen adeiladu'r fferm wynt, caiff yr ardal hon ei phriddo a'i hadfer. Os bydd gofyn am lwyth annormal pellach yn ystod oes weithredol y fferm wynt, caiff yr ardal hon ei chrafu i ffwrdd i wneud lle i'w cyflenwi.

4.13 Yn ystod y gwaith ym mynedfa'r safle bu innogy yn monitro dirgryniadau yn unol â'r rhwymedigaethau cynllunio, drwy drydydd parti annibynnol. Mae Dawnus hefyd wedi gwneud archwiliadau dirgryniadau o weithgareddau penodol. Mae'r gwaith monitro wedi dangos nad yw'r lefelau dirgrynu yn sylweddol.

4.14 Cafodd bwnd ei godi o isbriddoedd i fod yn rhwystr acwstig yn ystod y gwaith ar fynedfa'r safle. Caiff hwn ei dynnu i lawr ar ôl cwblhau'r gwaith.

5. Diweddariad Jenny Cowley (a ddarparwyd ar ran JC gan TJ)

5.1 Daeth Tonia Antoniazzi yr AS dros Gŵyr ar ymweliad safle ar ddiwedd Awst. Cyflwynodd ddatganiad i'r wasg cadarnhaol ynghyd â negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

5.2 Yn dilyn y sylw cadarnhaol a roddwyd yn y papur lleol i ymweliad yr AS fe wnaeth un o drigolion Ffordd Bolgoed ysgrifennu unwaith eto at innogy i godi pryderon ynglŷn â sŵn, llwch, dirgrynu, a thraffig. Roedd yr unigolyn hwn wedi codi'r materion hyn gydag innogy sawl tro yn y gorffennol ac mae Innogy wedi delio gyda'r materion ac wedi darparu adborth sawl tro.

5.3 Ar wahân, roedd un preswyliwr wedi recordio'r sŵn a wnaed gan y peiriant cnocellu ffyrdd ac wedi anfon y recordiad i innogy. Cyhuddwyd contractwyr innogy o ddechrau gweithio cyn yr amser dechrau o 7.30 am a nodir yn y caniatâd cynllunio. Mae Innogy wedi ymchwilio i hyn ac ni welodd ddim tystiolaeth o'r amser dechrau yn cael ei dorri. Mae ecolegydd a chlerc gwaith amser llawn Innogy ar y safle rhwng 7 a 7.30 am ac mae'r ddau wedi cadarnhau nad yw'r gwaith cnocellu ffordd yn dechrau tan 9 am.

5.4 Roedd un o drigolion Cwmdulais wedi mynegi pryderon am raean a mwd ar y ffordd rhwng Heol y Barna i A1K9. Mae Dawnus wedi gosod haen newydd ar y darn hwn a chaiff ei wynebu fel yr amlinellir yn 4.10.

5.5 Mae anawsterau gydag ymrwymiadau eraill un o'r isgontractwyr wedi golygu bod y gwaith o ail-wynebu'r ffordd ar ei hôl hi. Mae hyn wedi arwain at gŵyn oddi wrth un o drigolion Cwmdulais. Mae'r is-gontractwr dan sylw yn awr ar y safle a rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau'n fuan.
(AP: Bydd Tom Morris o Dawnus yn cysylltu â'r achwynydd i ddweud hyn wrthynt.)

5.6 Cafwyd nifer fechan o gwynion am dagfeydd traffig ger Heol y Barna. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, mae'r cerbydau adeiladu yn gwneud lle i draffig mynediad lleol gyda chyn lleied â phosibl o oedi.

5.7 Daeth cwyn i law ynglŷn ag ysgubo ffordd Bryn Bach, nodwyd mai'r un glanhawr ffyrdd sydd â'r contract ar gyfer prosiect yr argae wrth ymyl prosiect Fferm Wynt Mynydd y Gwair ac felly bydd yn glanhau ffordd Bryn Bach fel rhan o'r gwaith hwnnw. Cafwyd cwyn arall ynglŷn â'r glanhawr ffordd yn gweithio'n hwyr gyda'r nos. Dywedodd TJ fod y glanhawr ffordd yn sicrhau bod y ffordd yn cael ei glanhau ar ôl i waith y dydd gael ei gwblhau. (AP: Tom Morris o Dawnus i gysylltu â'r is-gontractwr ynglŷn ag agwedd y gyrrwr pan gafodd ei herio gan un o'r trigolion lleol).

5.8 Wrth fynd heibio, esboniodd Dawnus fod y gwaith ar brosiect yr argae ymhell o gael ei orffen.

5.9 Mae innogy wedi penodi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Abertawe (SCVS) fel y gweinyddwr annibynnol i reoli Cronfa Budd Cymunedol (CBF) Fferm Wynt Mynydd y Gwair. Mae gan aelodau'r CLG nifer o gwestiynau ynglŷn â gweinyddu'r gronfa a gellir rhoi'r rhain i Kathryn Harries yn y cyfarfod nesaf. Mae KH hefyd wedi dweud y bydd Amanda Carr, Prif Swyddog Gweithredol yr SCVS, hefyd yn mynychu'r cyfarfod nesaf.

5.10 Roedd aelodau'r CLG yn falch o glywed y newyddion hyn ac ailadroddasant eu pryderon am ba gynghorau cymunedol lleol oedd yn gymwys i ymgeisio am y gronfa leol, y gystadleuaeth am y cyllid, a pha wybodaeth a fyddai ar gael iddynt i'w helpu i ysgrifennu a chyflwyno ceisiadau.

5.11 Atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r CLG fod y SCVS wedi cael llwyddiant da yn y gorffennol yn gweithio gyda chymunedau bach ac yn cefnogi prosiectau bach. Teimlai fod y ffaith bod Amanda Carr wedi dweud y gallai fynychu'r cyfarfod nesaf yn arwydd cadarnhaol.

5.12 Ailadroddodd TJ nad oedd ganddo ddim i'w wneud ag elfen CBF y prosiect.

6. **Unrhyw Fater Arall**

6.1 Ni fydd y Tyrbinau a'r tyrau yn cael eu danfon ar AILs tan fis Awst 2018.

6.2 Gofynnwyd i'r Cyngh Kevin Griffiths a allai seiclwyr ddefnyddio'r 300 metr o lwybr sydd newydd gael tarmac o fynedfa safle Ffordd Bolgoed, ar ôl i'w gwaith gael ei gwblhau. Dylid dweud wrth seiclwyr na chânt ddefnyddio'r llwybr hwn gan ei fod yn eiddo preifat.

6.3 Yn ogystal, roedd seiclwyr yn holi a fyddai unrhyw ddeunydd wedi'i ailgylchu o'r gwaith adeiladu yn addas i'w ddefnyddio ar y llwybrau seiclo sy'n cael eu gwneud gerllaw. (AP: Bydd Dawnus yn ystyried a oes unrhyw ddeunydd dros ben ac yn rhoi gwybod a yw'n addas i'w ailddefnyddio ai peidio).

6.4 Bydd TJ yn diweddaru'r blog yn fuan iawn.

6.5 Mae'r gwaith adeiladu, ar hyn o bryd, yn glynu wrth yr amserlenni a amlinellir yn rhaglen y prosiect.

7. **Cyfarfod nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 6 pm ddydd Iau 24ain Medi, yn yr Hen Foelerdy (Old Boiler House), Penllergaer (os bydd ar gael).

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm.